Pecyn Cymorth HIC

Rhagair

Mae Her Iechyd Cymru yn fodd o gydnabod gweithredu sydd eisoes yn digwydd i wella iechyd a lles, ac yn fodd o ysgogi gweithredu newydd. Un ffordd y mae'n ceisio cyflawni'r olaf yw trwy ledaenu ymarfer da.

Dyna pam mae'n bleser o'r mwyaf imi groesawu *Mynd Amdani: Cyfraniad Iechyd yr Amgylchedd at Her Iechyd Cymru* , gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru. Drwy arddangos gwaith da sydd eisoes ar y gweill, mae'r pecyn cymorth yn cynnig nifer o syniadau da, a chryn dipyn o gyngor ymarferol ar ddatblygu mentrau tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru.

Mae Her Iechyd Cymru yn gyfle i bawb yng Nghymru chwarae rhan wrth wella iechyd a lles.

Mae'n her i unigolion wneud yr hyn y gallant i wella iechyd eu hun a'u teuluoedd, ac i sefydliadau weithredu i wella iechyd eu cwsmeriaid, eu gweithwyr neu ddefnyddwyr eu gwasanaeth, ac i lywodraeth helpu i greu'r amodau angenrheidiol i bobl fyw bywydau iach.

Mae'r ffordd y mae llywodraeth leol wedi croesawu'r Her Iechyd, a'r cyfraniad sylweddol y mae maes Iechyd yr Amgylchedd wedi'i wneud wrth ymateb i'r Her, wedi gwneud argraff dda arnaf. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd am y modd arloesol y mae'r Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn hybu'r gwaith da hwn, ac am y dull rhagweithiol y mae'n lledaenu ei waith, a Her Iechyd Cymru, i gynulleidfa fwy eang.

John Griffiths, Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'n bleser gennyf groesawu'r pecyn cymorth hwn ar gyfer Her Iechyd Cymru, sy'n gyfraniad pwysig at wella iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wedi bod yn falch o weithio ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynhyrchu'r esiampl ardderchog hon o roi ymarfer gorau ar waith. Un o'n nodau allweddol yw gallu gweithredu fel sianel o wybodaeth a lledaenu ymarfer gorau. Dim ond trwy gydweithio'n agos â'r awdurdodau hynny sy'n flaenllaw o ran ymarfer gorau y gallai hyn fod yn bosibl. Hoffwn ddiolch i'r holl awdurdodau hynny sydd wedi cyfrannu at y pecyn cymorth hwn, gan annog eraill sy'n sicrhau ymarfer gorau i weithio ar y cyd gyda ni.

Rwy'n siwr y bydd y pecyn cymorth hwn o fudd mawr i'r awdurdodau a'r ymarferwyr, ac y bydd hynny'n cael effaith ar iechyd eu poblogaethau.

Alan Higgins, Llywydd Sefydliad Siartredig Iechyd Amgylchedd